

**Siarter rhwng Cyngorau Dinas, Tref a
Chymuned Sir Ddinbych
a
Chyngor Sir Ddinbych**

Mae'r Cyngorau canlynol wedi mabwysiadu'r Siarter hon yn galonnog fel cytundeb cydfuddiannol rhwng dwy haen y Llywodraeth o fewn Sir Ddinbych.

Cyngor Cymuned Aberwheeler

Cyngor Cymuned Betws Gwerfil Goch

Cyngor Cymuned Bodfari

Cyngor Cymuned Bryneglwys

Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog

Cyngor Cymuned Clocaenog

Cyngor Cymuned Corwen

Cyngor Cymuned Cyffylliog

Cyngor Cymuned Cynwyd

Cyngor Tref Dinbych

Cyngor Cymuned Derwen

Cyngor Cymuned Dyserth

Cyngor Cymuned Efenechtyd

Cyngor Cymuned Gwyddelwern

Cyngor Cymuned Henllan

Cyngor Cymuned Llanarmon yn Ial

Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd

Cyngor Cymuned Llandegla

Cyngor Cymuned Llandyrnog

Cyngor Cymuned Llandrillo

Cyngor Cymuned Llanelidan

Cyngor Dinas Llanelwy

Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd

Cyngor Cymuned Llanferres

Cyngor Tref Llangollen

Cyngor Cymuned Llangynhafal

Cyngor Cymuned Llanrhaeadr

Cyngor Cymuned Llantysilio

Cyngor Cymuned Llanynys

Cyngor Cymuned Nantglyn

Cyngor Tref Prestatyn

Cyngor Tref Rhuddlan

Cyngor Tref Rhuthun

Cyngor Cymuned Tremeirchion, Cwm a Waen

Cyngor Tref Y Rhyl

A

Cyngor Sir Ddinbych

Nod y siarter ydi diffinio a gwella'r berthynas bresennol rhwng Cyngorau Dinas,Tref a Chymuned Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych.

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Cyngorau Dinas,Tref a Chymuned (CD,TaCh) a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) â swyddogaeth bwysig yn y system llywodraeth leol. Y rhain yw'r lefelau mwyaf lleol o lywodraeth ac fe allan nhw ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol a helpu i ddod â bywyd i'w cymunedau.
- 1.2 Mae'n bwysicach nag erioed fod CSDd a'r CD,TaCh o fewn Sir Ddinbych yn parhau i weithio'n agos â'i gilydd mewn partneriaeth er budd preswylwyr lleol. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn gyfartal â Chyngorwyr a Swyddogion y Cyngor.
- 1.3 Mae'r Siarter hon yn cynrychioli cytundeb cydfuddiannol rhwng dwy haen o lywodraeth leol. Mae'n gosod allan y ffordd yr ydyn ni'n bwriadu gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu a hyrwyddo anghenion a dyheadau lleol er budd cymunedau lleol, wrth gydnabod cyfrifoldebau'r naill a'r llall fel cyrff ymreolaethol statudol sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd.
- 1.4 Mae'r ddogfen hon wedi ei dylunio hefyd i adeiladu ar arferion da presennol ac i groesawu'r egwyddorion a rennir sef didwylledd, parch a'n blaenoriaeth gyffredin o roi preswylwyr yng nghanol darpariaeth gwasanaeth.

2. Cyd-gydnabyddiaeth

- 2.1 Ein nod ydi gweithio efo'n gilydd yn bartneriaeth gyfartal yn hytrach na'n haenau. Dim ond os bydd y partneriaid - CSDd a'r CD,TaCh yn deall ac yn parchu swyddogaeth y naill a'r llall, ac yn gweithio i gyflenwi'r swyddogaethau hynny gyda gwasanaethu'r gymuned, y gellir cyflawni gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus ar lefel gymunedol.

2.2 Mae CSDd yn cydnabod fod CD,TaCh:

- 2.2.1 Yn rhan hanfodol o lywodraeth leol ddemocratig, yn cynrychioli cymunedau ar y lefel fwyaf lleol;
- 2.2.2 Yn ffynhonnell gwybodaeth sylfaenol bwysig am ddyheadau a barn y gymuned;
- 2.2.3 I'w parchu, eu trin yn gyfartal a'u cydnabod i fod yn amrywiol o ran eu maint ac o ran yr adnoddau sydd ar gael iddyn nhw;
- 2.2.4 Yn cael eu heffeithio gan benderfyniadau ariannol a gwleidyddol haenau eraill y llywodraeth a'u bod yn gorfod gweithio'n aml o fewn cyfyngiadau arbennig wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

2.3 Mae CD,TaCh yn cydnabod fod CSDd:

- 2.3.1 Yn cynrychioli buddiannau cymunedau lleol ar lefel y Sir;
- 2.3.2 Yn gorfod ystyried buddiannau cymunedol ehangach na'r Ddinas,Dref a/neu'r Gymuned;
- 2.3.3 Â dyletswyddau tuag at: y bobl sy'n defnyddio ei wasanaethau; y cymunedau y mae'n gweithio ynddyn nhw; y cyhoedd yn gyffredinol a chyrrff ariannu sy'n cefnogi ei waith; ei aelodau; y cyrrff rheoleiddiol sy'n goruchwyllo ei weithgareddau; ei strwythurau sydd wedi eu diffinio'n glir i'w alluogi i gyflawni ei oblygiadau o ran atebolrwydd.
- 2.3.4 Yn cael ei effeithio gan benderfyniadau ariannol a gwleidyddol y Cynulliad Cymreig a llywodraeth ganolog a bydd yn gorfod gweithio'n aml o fewn cyfyngiadau arbennig wrth gyflawni ei swyddogaeth strategol a'i gyfrifoldebau.

3. Gwybodaeth a Chyfathrebu

- 3.1 Mae sicrhau cyfathrebu a chysylltiad da rhwng y Sir a'r CD,TaCh yn gonglfaen y Siarter yma ac mae'n golygu cyfathrebu o'r lefel fwyaf strategol i lawr i gysylltu ar brosiectau lleol penodedig.

3.2 Mae CSDd yn ymgymryd i:

- 3.2.1 Drefnu o leiaf un cyfarfod Cyswllt y flwyddyn efo'r CD,TaCh i drafod nodau corfforaethol a materion eraill sydd o bwys i'r naill a'r llall;
- 3.2.2 Trefnu o leiaf un Cyfarfod Clwstwr y flwyddyn mewn tair ardal ddaearyddol y Sir i drafod materion sy'n briodol i'r ardal honno;
- 3.2.3 I nodi uwch swyddog cyswllt priodol i roi cyngor i'r CD,TaCh a chynorthwyo'r CD,TaCh gyda datrys unrhyw anawsterau gyda Chyngor Sir Ddinbych;
- 3.2.4 Darparu cadarnhad ysgrifenedig o ohebiaeth ysgrifenedig gan Gyngor Dinas,Tref a Chymuned a cheisio ateb yn llawn o fewn 10 diwrnod gwaith. Os bydd CD,TaCh yn defnyddio e-bost fe wnaiff CSDd ddefnyddio e-bost i ymateb. Os na ellir darparu ateb llawn o fewn 10 diwrnod gwaith, fe wnaiff CSDd ddarparu ateb dros dro yn dweud pa bryd y bydd ateb llawn ar gael a pha swyddog sy'n delio â'r mater;
- 3.2.5 Darparu gohebiaeth a gwybodaeth lle bynnag y bo hynny'n bosib yn y fformat y gofynnwyd amdano gan y CD,TaCh, e.e. dogfennaeth electronig neu gopi caled;
- 3.2.6 Annog presenoldeb Cynghorwyr Sir yng nghyfarfodydd CD,TaCh;
- 3.2.7 Darparu cysylltiadau i wefannau CD,TaCh ar wefan Sir Ddinbych;
- 3.2.8 Hyrwyddo System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y Sir (CRM) a sicrhau ei fod yn gyfrwng effeithiol ac effeithlon i'r CD,TaCh gynhyrchu ymholiadau;
- 3.2.9 Gweithredu ar gwynion cyffredin a gynhyrchir i'r System CRM a chynnwys cynrychiolwyr y CD,TaCh mewn gweithgorau gwella i ddelio â chwynion, e.e. gweithgor ymatebolrwydd Priffyrdd a Seilwaith a Gwella Gwasanaethau

3.3 Bydd Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn ymdrechu i:

- 3.3.1 Mae Cynghorydd Dinas, Tref neu Gymuned yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r Cyngor Sir yn egluro ym mha rôl maent yn ymgysylltu â'r Cyngor Sir e.e. fel Cynghorydd unigol neu ar ran y Cyngor gan roi gwybod i'r Clerc.
- 3.3.2 Gael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd cyswllt a chyfarfodydd clwstwr fydd wedi eu galw gan CSDd ac yn awgrymu eitemau agenda'n weithredol;
- 3.3.3 Darparu cadarnhad ysgrifenedig o dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig (yn cynnwys e-byst) gan CSDd o fewn 5 diwrnod gwaith a cheisio ateb yn llawn o fewn 10 diwrnod gwaith, bydd CD, TaCh yn darparu ateb dros dro'n dweud pa bryd y bydd ateb llawn ar gael;
- 3.3.4 Darparu'r cynghorwyr sir perthnasol â chopïau o'r Agendau, Cofnodion a phapurau eu cyfarfodydd os gofynnir am hynny;
- 3.3.5 Gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o Dechnoleg Gwybodaeth a dulliau cyfathrebu electronig sydd ar gael i'r CD, TaCh, yn enwedig pan fydd hynny'n cynyddu effeithlonrwydd a gwella gwerth am arian;
- 3.3.6 Gwneud defnydd llawn o'r System CRM i godi materion â'r Cyngor;
- 3.3.7 Bod yn ymatebol i gyfleoedd i ymuno â gweithgorau efo chynrychiolwyr CSDd i ddelio â chwynion gwasanaethau;
- 3.3.8 Sicrhau, drwy Glercod y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, bod eu Cynghorwyr yn cael eu hysbysu o gyfathrebiadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

4. Ymgynghori ac Ymgysylltu

- 4.1 Mae ymgynghori ac ymgysylltu'n elfennau allweddol o lywodraethu agored ac fe allan nhw arwain at bolisiau sy'n fwy cytbwys a chyhoedd sydd â mwy o ymgysylltiad. Mae'r siarter hon yn gosod allan ymrwymiad dilys ymysg yr holl bartïon i ymgynghori ar faterion sy'n gydfuddiannol gyda gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu sy'n glir, yn sbesiffig a chyda chyfyngiadau amser.

4.2 Mae CSDd yn ymgymryd i:

- 4.2.1 Geisio cyfranogiad CD, TaCh ac ymgynghori â nhw ar bolisiau Sir Ddinbych sy'n effeithio ar y CD, TaCh yn gyfunol neu'n unigol gyn gynted ag sy'n briodol;
- 4.2.2 Darparu wyth wythnos o leiaf ar gyfer ymgynghori ar bolisiau CSDd ar wahân i achosion lle bydd CSDd yn rhwym i ofynion statudol eraill e.e. mewn achosion o geisiadau cynllunio;
- 4.2.3 Trafod â'r CD, TaCh dan sylw gyn gynted ag sy'n briodol, unrhyw gynllun CSDd sy'n effeithio ar dref neu gymuned yn benodedig, yn cynnwys gwerthu neu wasgaru tir neu eiddo o fewn eu cymunedau, a gwahodd CD, TaCh i ddod unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus ac arddangosfeydd perthnasol;

- 4.2.4 Parchu ac ystyried yn briodol farn CD,TaCh cyn gwneud penderfyniadau;
- 4.2.5 Yn ôl disgresiwn y Pennaeth Gwasanaeth, caniatáu swyddogion priodol i ddod i gyfarfodydd CD,TaCh i esbonio a thrafod polisïau a chynlluniau, yn enwedig pan na ellir datrys materion cynhennus mewn unrhyw ffordd arall;
- 4.2.6 Darparu dogfennau ymgynghori'n ddwyieithog i bob CD,TaCh, oni bai fod yna gais blaenorol am rai Saesneg yn unig, a gwneud pob ymdrech i ddarparu cyrchiad i unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i lunio barn wybodus;
- 4.2.7 Adrodd yn ôl i'r CD,TaCh ar ganlyniadau ymgynghoriadau, gan amlygu'n glir unrhyw ddiwygiadau sydd wedi eu gwneud neu sydd i'w gwneud, yn ogystal ag amlinellu mewn ffordd dryloyw, y rheswm am y canlyniad neu'r penderfyniad hwnnw e.e. mewn achos o gais cynllunio sy'n gysylltiedig â diwygiad;
- 4.2.8 Sicrhau bod Gwasanaethau'n mabwysiadu dull cyson a rhagweithiol o ran ymgysylltu ac ymgynghori â'r CD,TaCh.

4.3 Bydd CD,TaCh yn ymdrechu i:

- 4.3.1 Ymateb yn bositif lle bo hynny'n bosib i wahoddiadau i ddod i bwyllgorau ymgynghorol, gweithgorau a chyfarfodydd;
- 4.3.2 Ymateb o fewn terfynau amser ymgynghori a osodwyd gan CSDd oni bai fod CSDd wedi cytuno'n wahanol;
- 4.3.3 Gweithio efo CSDd i geisio atebion i faterion cynhennus sy'n gyd-dderbyniol;
- 4.3.4 Parchu penderfyniad democrataidd terfynol CSDd;
- 4.3.5 Ymgysylltu ac ymgynghori'n uniongyrchol â'u preswylwyr;
- 4.3.6 Hysbysu CSDd yn flynyddol o galendr eich cyfarfodydd er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau gwybodus wrth gynllunio ein cyfarfodydd cyswllt, clwstwr a chyhoeddus;
- 4.3.7 Mabwysiadu dull rhagweithiol wrth weithio mewn consortiwm â Chynghorau Dinas,Tref neu/a Chynghorau Cymuned i geisio barn a chonsensws ar faterion a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r ardal gyfan;
- 4.3.8 Sicrhau, drwy Glerc eu Cyngor Dinas,Tref neu Gymuned, fod penderfyniadau a wneir gan CSDd ar bynciau sy'n effeithio ar eu hardaloedd nhw, yn cael eu hadrodd yn ôl i Aelodau'r CD,TaCh, yn cynnwys y rhesymau a roddwyd am y penderfyniad hwnnw gan staff CSDd, e.e. penderfyniadau cynllunio.

5. Gweithio mewn Partneriaeth ac ar y Cyd

- 5.1 Cydnabyddir fod partneriaethau effeithiol â'r potensial o ddod â manteision i'r rheiny sy'n gysylltiedig. Bydd unrhyw bartneriaethau a ddatblygir â chydgyfrifoldebau cyfatebol hefyd. Mae'n rhaid i lywodraeth leol ar y ddwy haen weithio efo'i gilydd i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein hardaloedd a chynorthwyo, lle bo hynny'n bosib, gyda darparu strategaethau allweddol e.e. y Cynllun MAWR. Os bydd gwneud pethau'n wahanol yn cyflawni gwasanaeth gwell, fe wnawn ni archwilio'r dulliau hynny'n ddifrifol.

- 5.2 Mae CSDd yn ymrwymedig mewn egwyddor i'r cyfle o wella gwasanaeth gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, lle bydd CD, TaCh yn gwneud cyfraniad ariannol i wella ansawdd neu swm gwasanaeth arbennig, a ddarperir yn yr ardal leol gan CSDd.
- 5.3 Mae CSDd yn ymrwymedig hefyd i ddatganoli gwasanaethau i'r CD, TaCh lle bydd hynny'n briodol i'r naill a'r llall. Dylid darparu gwasanaethau gan ystyried gwerth am arian a gwerth ychwanegol i bobl leol.
- 5.4 Cydnabyddir yn llwyr na fydd hi'n ymarferol nac yn ddymunol ymgymryd â gwelliannau neu ddatganoli felly gyda rhai gwasanaethau.

5.5 Mae CSDd yn ymgymryd i:

- 5.5.1 Geisio cyfranogiad pob CD, TaCh i fforio cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd;
- 5.5.2 Darparu gwybodaeth ariannol glir a rhestrau gwasanaethau i'r CD, TaCh sydd â diddordeb;
- 5.5.3 Cydnabod, pan roddir cymorth ariannol gan CD, TaCh, y gwneir penderfyniadau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw mewn ymgynghoriad â'r CD, TaCh.
- 5.5.4 Fforio, lle bynnag y bo hynny'n bosib, mwy o ymgysylltiad gan y CD, TaCh yng nghaffael ac adolygiad gwasanaethau a gonaethwyd ar lefel y Sir ond sy'n ymgymryd â gwaith yn eu tref nhw e.e. drwy gwblhau holiaduron perfformiad, bod yn aelodau o'r gweithgorau a'r panelau gwerthuso.

5.6 Mae CD, TaCh yn ymdrechu i:

- 5.6.1 Ymateb yn bositif i wahoddiadau i gyfranogi mewn gweithio ar y cyd a, lle bo hynny'n briodol, cyllido i'r perwyl hwnnw drwy'r Praesept Blyneddol;
- 5.6.2 Gweithio ynghyd i sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei glywed drwy gefnogi cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad y gymuned e.e. Cyllido Cyfranogol;
- 5.6.3 Bod yn ymatebol i gyfleoedd i gael mwy o ymgysylltiad â'r broses gaffael ar lefel Sirol am wasanaethau contract.

6. Cymorth Ymarferol a Hyfforddiant

- 6.1 Bydd CD, TaCh yn dibynnu, i raddau amrywiol, ar y cymorth proffesiynol y gellir ei ddarparu gan eraill. Mae yna adegau pan all cymorth CSDd fod yn arbennig o ddefnyddiol i CD, TaCh.

6.2 Mae CSDd yn ymgymryd i:

- 6.2.1 Cynnig cymorth ymarferol i'r CD, TaCh, mynediad i wasanaethau proffesiynol, gwybodaeth arbenigol a chyrchiad i ddigwyddiadau hyfforddi a gynhelir gan CSDd am bris sydd wedi ei gytuno gan y naill a'r llall lle bo hynny'n briodol;
- 6.2.2 Ymgysylltu eu staff â rôl, cyfrifoldebau a phwysigrwydd CD, TaCh;

6.2.3 Gweithredu a glynu at brotocol penodedig o ran materion cynllunio;

6.2.4 Darparu arweiniad ar ddulliau ymgysylltu.

6.3 Bydd CD,TaCh yn ymdrechu i:

6.3.1 Gyfranogi, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol, mewn cyrsiau hyfforddi a gynigir gan CSDd;

6.3.2 Glynu at brotocol penodedig o ran materion cynllunio;

6.3.3 Bod yn rhagweithiol yn ennill a diweddarau sgiliau o fewn amgylchedd cyfnewidiol lle mae swyddogaeth Clerc a Chynghorwyr CD,TaCh yn esblygu e.e. gydag ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi eu datganoli.

7. Llywodraeth Leol ac Etholiadau

7.1 Etholiadau teg ac agored ydi sylfaen democratiaeth leol. Fe wnawn ni ofalu bod etholiadau'n cael eu cystadlu'n rhydd ac yn deg. Fe wnaiff CD,TaCh a CSDd annog pobl leol yn weithredol i ymgysylltu â democratiaeth leol drwy eu cynnig eu hunain ar gyfer etholiad a chyfranogiad yn y broses etholiadol.

7.2 Mae swyddogaeth y Cynghorydd Sir fel sianel rhwng CSDd a Ddinas,Thref neu Gymuned yn hanfodol o ran perthynas effeithiol. Fe anogir perthynas ragweithiol yn weithredol yn enwedig gyda'r Cynghorwyr Sir hynny sydd ddim 'â dwy het' ac sydd ddim ar y CD,TaCh.

7.3 Mae CSDd yn ymgymryd i:

7.3.1 Gynnwys CD,TaCh mewn codi ymwybyddiaeth / cyhoeddusrwydd i annog enwebiadau ar gyfer ymgeisio mewn etholiadau lleol;

7.3.2 Helpu i hysbysebu etholiadau lleol sydd i ddod ar ran y CD,TaCh;

7.3.3 Annog Cynghorwyr Sir i ddod i gyfarfodydd CD,TaCh yn eu ward;

7.3.4 Annod Cynghorwyr Sir yn weithredol i fwydo materion o'r CD,TaCh i'r Grwpiau Aelodau Ardal a fforymau eraill y cyngor a chyfleu gwybodaeth i'r CD,TaCh.

7.4 Bydd CD,TaCh yn ymdrechu i:

7.4.1 Wahodd eu Cynghorydd/Cynghorwyr Sir lleol i gyfarfodydd;

7.4.2 Annog preswylwyr i ddod yn enwebai ar gyfer etholiadau lleol a chyfranogi yn y broses ddemocrataidd.

8. Moeseg a Safonau

8.1 Mae'n bwysig fod pob cyngor yn glynu at yr egwyddorion arweiniol canlynol o ran tegwch:

- Triniaeth deg i bawb;
- Dileu anfantais;
- Cydnabyddiaeth a chynhwysiad grwpiau sydd wedi eu heithrio'n flaenorol;
- Cynnal busnes efo'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal lle bo hynny'n bosib;
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i bryderon amgylcheddol a datblygiad cynaliadwy a'u hyrwyddo;
- Adolygu'n weithredol a pharchu'r cod ymddygiad.

9. Gweithredu, Monitro ac Adolygu

- 9.1 Os ydi'r Siarter hon i fod yn ddogfen fyw gydag effaith mae'n rhaid ei chymhwyso a'i gweithredu gydag ymdrech ymwybodol. Bydd yr ymrwymiadau a'r ethos a fynegir yn y Siarter yma'n cael eu cyfathrebu i staff CSDd yn eu cyfnod ymsefydlu a thrwy'r rhwydwaith o Reolwyr Canol ar draws y Cyngor. Mae Penaethiaid Gwasanaeth â rôl i gefnogi'r Siarter a sicrhau bod eu staff yn ymgorffori'r ymagwedd y mae'r Siarter yn ei chefnogi.
- 9.2 Mae'n bwysig sicrhau glynu at y Siarter yma. Mae Grwpiau Aelodau Ardal â rôl i graffu cysylltiadau rhwng CD, TaCh Sir Ddinbych a CSDd ac fe barheir i annog hyn. Fe anogir adolygiad blynyddol 360° o weithrediad y Siarter ac mae Craffu Cymunedau mewn safle delfrydol i arwain gyda'r adolygiad yma.
- 9.3 Er mwyn sicrhau cysondeb cymhwysiad y Siarter ar draws Gwasanaethau CSDd, fe gaiff Penaethiaid Gwasanaeth eu herio gan gydweithwyr, Cyfarwyddwyr ac Aelodau bob 6 mis ynglŷn â chyflawniad eu gwasanaeth o'r ymrwymiadau yn y ddogfen hon. Fe anogir y CD, TaCh, dan arweiniad eu Cadeirydd neu eu Clerc, i wneud yr un fath o fewn eu sefydliad nhw.
- 9.4 Bydd arfarniad effeithiolrwydd a gweithrediad y Siarter yn cael ei annog yng nghyfarfodydd Clwstwr y CD, TaCh.
- 9.5 Mae'n bwysig bod y ddogfen yma'n cael ei chynnal fel datganiad cyfoes o'r trefniadau partneriaeth rhwng CSDd a CD, TaCh Sir Ddinbych. Fe fydd yna gyfle i drafod cynnwys y Siarter yn y cyfarfodydd Cyswllt. Fe drafodir unrhyw adborth fydd wedi ei dderbyn yn y cyfarfodydd Cyswllt hyn a chan staff ac Aelodau CSDd efo'r CD, TaCh ac fe wneir y diwygiadau a/neu'r ychwanegiadau fel y bo'r angen yn dilyn ymgynghoriad llawn.

Atodiad A: Pwerau a Dyletswyddau y gall CD,TaCh eu cyflawni

Mae'r rhestr isod yn rhestr ddangosol o bwerau a gweithgareddau sy'n gymwys i gynghorau cymunedol a chynghorau dinas a tref. Mae hyn i'ch helpu i werthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau y mae CD,TaCh â grym cyfreithiol i fod yn ymglymedig â nhw, yn ôl Deddfau Seneddol. Mae'n rhestr gyfeirio ddefnyddiol pan fydd arnoch angen gwybod a all y Cyngor Tref neu Gymuned weithredu. Sylwch: Ffynhonnell y wybodaeth ydi 'Canllaw'r Cynghorydd Da - ar gyfer Cynghorwyr Cymuned,Dinas a Thref' a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n bosib nad yw'n gwbl gynhwysfawr.

GWEITHGAREDD	PWERAU A DYLETSWYDDAU	DARPARIAETH STATUDOL
Rhandiroedd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Pwerau i ddarparu Rhandiroedd ▪ Dyletswydd i ystyried darparu gerddi rhandir os na fydd galw wedi ei fodloni 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Mân-ddaliadau a Rhandiroedd 1908, ss 23
Baddonau a Golchdai	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddarparu baddonau cyhoeddus a golchdai 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddarparu baddonau cyhoeddus a golchdai
Claddfeydd, mynwentydd ac amlosgfeydd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym, fel awdurdod claddu, i gaffael, darparu a chynnal ▪ Grym i gytuno i gynnal henebion a chofebion ▪ Grym i gyfrannu tuag at gostau mynwentydd 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Mannau Agored 1906, ss 9 a 10 ▪ Deddf Cynghorau Plwyf a Thref ac Awdurdodau Claddu (Darpariaethau Amrywiol) 1970, s.1 ▪ Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.214
Llochesi Bws	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddarparu a chynnal llochesi 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1953, s.4 ▪ Deddf Cynghorau Plwyf 1957, s.1
Is-ddeddfau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddarparu is-ddeddfau ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> ○ Parciau difyrwch ○ Parciau Beicio ○ Baddonau a Golchdai ○ Mannau agored a chladdfeydd 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875, s.164 ▪ Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, s.57(7) ▪ Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, s.223 ▪ Deddf Mannau Agored 1906, s.15
Elusennau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dyletswyddau ynglŷn ag elusennau plwyfol 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Elusennau 1993 s. 79
Goleuadau Nadolig	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddarparu ar gyfer denu ymwelwyr 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol 1972. s.144
Canolfan Cyngor ar Bopeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i gefnogi 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.142
Clociau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddarparu clociau cyhoeddus 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Cynghorau Plwyf 1957, s.2
Claddfeydd sydd wedi cau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i gynnal a chadw 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.215
Tiroedd comin a chomin pori	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Pwerau o ran cau tiroedd, rheoleiddio a rheoli, a darparu comin pori 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Cau Tiroedd 1845 ▪ Deddf Llywodraeth Leol 1894, s.8 ▪ Deddf Mân Ddaliadau a Rhandiroedd 1908, s.34
Canolfannau cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddarparu a chyfarparu adeiladau cymunedol ▪ Grym i ddarparu adeiladau ar gyfer clybiau sydd ag amcanion athletaidd, cymdeithasol neu addysgol 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.133 ▪ Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 s.19
Atal trosedd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Pwerau i wario arian ar wahanol 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol ac

	fesurau atal trosedd	Ardrethu 1997, s.31
Draeniad	<ul style="list-style-type: none"> Grym i ddelio â phyllau a ffosydd 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, s.260
Adloniant a'r celfyddydau	<ul style="list-style-type: none"> Darpariaeth adloniant a chymorth i'r celfyddydau yn cynnwys gwyliau a dathliadau 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.145
Anrhegion	<ul style="list-style-type: none"> Grym i dderbyn 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.139
Priffyrdd	<ul style="list-style-type: none"> Grym i drwsio a chynnal llwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffyl Grym i oleuo ffyrdd a manau cyhoeddus Grym i ddarparu manau parcio ar gyfer cerbydau, beiciau a motor-beics Grym i ymrwymo i gyflwyno a lledu Grym i ddarparu seddi a llochesi min y ffordd Grym i gwyno i'r awdurdod priffyrdd ynglŷn â diogelu hawliau tramwy a gwastraff min y ffordd Grym i ddarparu arwyddion traffig a hysbysiadau eraill Grym i blannu coed etc. ac i gynnal lleiniau ymyl ffordd 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Priffyrdd 1980, ss.43, 50 Deddf Cyngorau Plwyf 1957, s.3 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ss.57 Deddf Priffyrdd 1980, ss.30 Deddf Cyngorau Plwyf 1957, s.1 Deddf Priffyrdd 1980, s.130 (6) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, s.72 Deddf Priffyrdd 1980, s.96
Buddsoddiadau	<ul style="list-style-type: none"> Grym i gyfranogi mewn cynlluniau o gyd-fuddsoddi 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr 1961
Tir	<ul style="list-style-type: none"> Grym i gaffael drwy gytundeb, i feddiannu, i waredu tir Grym i dderbyn anrhegion tir 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol 1972, ss.124, 126, 127 Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.139
Sbwriel	<ul style="list-style-type: none"> Darpariaeth cynwysyddion mewn manau cyhoeddus 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Sbwriel 1983, ss.5, 6
Cylchlythyrau	<ul style="list-style-type: none"> Grym i ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion sy'n effeithio ar lywodraeth leol 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.142
Mannau agored	<ul style="list-style-type: none"> Grym i gaffael a chynnal tir 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Mannau Agored 1906, ss.9 a 10
Adeiladau cyhoeddus a neuaddau pentref	<ul style="list-style-type: none"> Grym i ddarparu adeiladau ar gyfer swyddfeydd ac ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a chynulliadau 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.133
Cyfleusterau cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> Grym i ddarparu 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, s.87
Parciau, parciau difyrrwch	<ul style="list-style-type: none"> Grym i gaffael tir neu i ddarparu parciau adloniant, llwybrau cerdded cyhoeddus, parciau difyrrwch a manau agored ac i'w rheoli. 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875, s.164 (Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen.14 para.27) Deddf Iechyd y Cyhoedd Deddf Diwygio 1890, s.44 Deddf Mannau Agored 1906, ss.9 a 10
Hamdden	<ul style="list-style-type: none"> Grym i ddarparu ystod eang o gyfleusterau hamdden Darparu pyllau cychod 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, s.19 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961, s.54
Cynllunio Gwlad a Thref	<ul style="list-style-type: none"> Hawl i ofyn i'r awdurdod cynllunio lleol am hysbysiad o geisiadau cynllunio 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Atodlen.1, para.8
Gostegu Traffig	<ul style="list-style-type: none"> Pwerau i gyfrannu'n ariannol tuag at 	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol ac

	gynlluniau gostegu traffig	Ardrethu 1997, s.30
Cludiant	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Pwerau i wario arian ar gynlluniau cludiant cymunedol 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethut 1997, s.26-29
Arwyddion pentref	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i ddefnyddio arwyddion addurniadol i hysbysu ymwelwyr 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.144
Cofebion Rhyfel	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Grym i gynnal, atgyweirio, diogelu ac addasu cofebion rhyfel 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddf Cofebion Rhyfel (Pwerau Awdurdodau Lleol) 1923, s.1; fel y'i hymestynnwyd gan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1948, s.133

NODYN: PWERAU A DYLETSWYDDAU CYNGOR SIR UNEDOL

Mae yna gannoedd lawer o bwerau y gall CSDd eu deddfu fel cyngor sir unedol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a statud. Ni fyddai eu rhestru yn y ddogfen hon yn effeithlon nac yn effeithiol. Yn hytrach, ewch i gartref swyddogol ar-lein deddfwriaeth y DU ar <http://www.legislation.gov.uk/> i chwilio'n rhwydd am wybodaeth ar ddeddfwriaeth a statud benodedig.